**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Is-Ddeddfwriaeth: 10 Tachwedd 2004**

Ystyriodd y Pwyllgor y ddwy eitem ganlynol o is-ddeddfwriaeth ddydd Mercher 10 Tachwedd 2004:

**ELL-37-04 Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) (Rhif 2) 2004; a**

**ELL-38-04 Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) (Cymru) 2004**

Yn ogystal â'r Rheoliadau hyn, y memoranda esboniadol a'r arfarniad rheoliadol, darparodd y Gweinidog gopi o'r ymatebion i'r broses ymgynghori.

Bydd y Gorchymyn yn diwygio Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru gynnal cofnodion mewn perthynas â chategorïau penodol o bobl ac eithrio athrawon cofrestredig, e.e. pobl sydd wedi'u gwahardd neu wedi'u hatal rhag dysgu o bryd. Adlewyrcha'r diwygiadau a wneir gan y Gorchymyn hwn y rhai yn Rheoliadau arfaethedig Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) (Rhif 2) 2004, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor nodi'r dyddiad pan gyflogwyd person yn gyntaf fel athro cyflenwi neu athrawes gyflenwi o dan Reoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2003. Mae'r Gorchymyn hefyd yn gwneud rhai mân ddiwygiadau eraill i Orchymyn 2000 fel bod manylion cymwysterau academaidd a phroffesiynol person, a gedwir gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, yn gyfyngedig i'r rhai sy'n berthnasol i ddysgu ac er mwyn diweddaru cyfeiriadau at Ddeddf Addysg 2002.

Mewn ymateb i ymholiad gan Janet Ryder AC, eglurodd un o swyddogion y Gweinidog fod y Rheoliadau a'r Gorchymyn yn darparu ar gyfer Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i gofnodi'r dyddiad y dechreuodd athrawon newydd gymhwyso wneud gwaith cyflenwi. Materion i Awdurdodau Addysg Lleol ydoedd estyniadau ar gyfer gwaith cyflenwi, yn arbennig o ran pynciau lle roedd prinder athrawon ar gael.

Dywedodd y Gweinidog fod y Rheoliadau o natur dechnegol ac roeddent yn galluogi Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i fonitro'r terfyn amser llawn ar gyfer darparu hyfforddiant ymsefydlu i athrawon newydd gymhwyso. Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu adolygu'r trefniadau mewn perthynas â darparu hyfforddiant ymsefydlu yn ystod y flwyddyn nesaf.

Ni chafwyd trafodaeth bellach ac ni chynigiwyd unrhyw ddiwygiadau.

**Peter Black AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor**